OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1942 (Cy. 292)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc, Y Fenni, Sir Fynwy) (Cau Troetffordd Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym* | *16 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan - Llanymddyfri (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cau'r darn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu'n agos ato.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Tachwedd 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc, Y Fenni, Sir Fynwy) (Cau Troetffordd Dros Dro) 2015.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 01:00 o'r gloch ar 16 Tachwedd 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r droetffordd ar ochr ddeheuol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol y Parc, Y Fenni yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 23 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Hereford Road i gyfeiriad y gorllewin hyd at bwynt 7 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Priory Lane.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darn o'r droetffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Tachwedd 2015

*Sheena Hague*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.